# Cofnodion cryno - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

**Hybrid: Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 30 Mehefin 2022

Amser: 09. - 14.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12855

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
| --- | --- |
| Aelodau o'r Senedd: | Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd)<br>Janet Finch-Saunders AS<br>Huw Irranca-Davies AS<br>Delyth Jewell AS<br>Jenny Rathbone AS<br>Joyce Watson AS |
| Tystion: | Syr David Henshaw, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Sarah Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Peter Davies, Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd<br>Gareth Cunningham, RSPB Cymru<br>Yr Athro Steve Ormerod, Prifysgol Caerdydd<br>Annie Smith, RSPB<br>Dr Nerys Llewelyn Jones, Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc)<br>Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br>Andrew Minnis (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a’r tystion i’r cyfarfod.

1.2 Datganodd Joyce Watson AS fuddiant perthnasol fel aelod o RSPB.

## 2 Adferiad Gwyrdd yng Nghymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Syr David Henshaw, Cadeirydd y Grŵp Adferiad Gwyrdd (a Chadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru), Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Corfforaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Peter Davies, Aelod o’r Grŵp Adferiad Gwyrdd (a Chadeirydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru).

## 3 Trefniadau llywodraethu amgylcheddol interim

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Nerys Llewelyn-Jones, Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru.

## 4 Adferiad gwyrdd a threfniadau llywodraethu amgylcheddol interim

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gareth Cunningham, Pennaeth Cadwraeth Cymru, y Gymdeithas Cadwraeth Forol, yr Athro Steve Ormerod, Athro ym maes Ecoleg a Chyd-gyfarwyddwr y Sefydliad Ymchwil Dŵr, Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd, ac Annie Smith, Pennaeth Polisi Natur a Gwaith Achos, RSPB Cymru.

## 5 Papurau i’w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor y papurau o dan eitem 5.1 i 5.6.

**5.1 Adferiad gwyrdd a threfniadau llywodraethu amgylcheddol interim**

**5.2 Teithio ar fysiau a'r rheilffordd yng Nghymru**

**5.3 Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Feddygol**

**5.4 Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol**

**5.5 Llywodraethu amgylcheddol**

**5.6 Trafnidiaeth – terfyn cyflymder trefol**

5.6.1 Croesawodd y Pwyllgor y rheoliadau i gyflwyno cyflymder diofyn mewn ardaloedd trefol a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Newid Hinsawdd yn gofyn am eglurhad ar y cynlluniau i osod arwyddion ar gyfer y terfyn cyflymder newydd.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Adferiad gwyrdd yng Nghymru – trafod y dystiolaeth a glywyd o dan eitem 2

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2 a 4.

## 8 Trefniadau llywodraethu amgylcheddol interim – trafod y dystiolaeth a glywyd o dan eitem 3

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 3 a 4.

8.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Prif Weinidog cyn y datganiad deddfwriaethol arfaethedig ar 5 Gorffennaf 2022 i nodi ei safbwynt ynghylch Bil llywodraethiant amgylcheddol.

## 9 Ystyried dull gweithredu ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Banc Seilwaith y DU

9.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull o drafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Banc Seilwaith y DU. Cytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i ofyn am ragor o wybodaeth a/neu eglurhad ar faterion yn ymwneud â'r Memorandwm.

## 10 Trafod adroddiad drafft y Pwyllgor ar gysylltedd digidol yng Nghymru

10.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar gysylltedd digidol yng Nghymru, a chytunwyd arno.